

POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalmwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

NOD

Polisi'r Cylch yw gweithredu gyda gonestrwydd a chywirdeb ac mae disgwyl i staff a gwirfoddolwyr gynnal safonau o'r radd uchaf. Anogir staff a gwirfoddolwyr i adrodd am unrhyw amheuaeth o gamymddwyn mor fuan â phosib. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithio ar bob lefel o fewn y Cylch.

EGWYDDOR

Mae Chwythu'r Chwiban yn golygu adrodd am unrhyw amheuaeth o gamymddwyn neu berygl sy'n ymwneud ag unrhyw weithgareddau yn y Cylch. Mae hyn yn cynnwys llwgrwobrwyo, twyll neu unrhyw drosedd arall, camweinyddiad cyfiawnder, risg iechyd a diogelwch, niwed i'r amgylchedd a thorri ymrwymadau cyfreithiol neu broffesiynol.

COD YMARFER

Mewn nifer o achosion y gobaith yw y bydd y staff yn gallu trafod unrhyw bryderon gyda'r Cadeirydd/Person Cofrestredig, yn y lle cyntaf. Yn dilyn hyn trefnir cyfarfod mor fuan â phosib i drafod y pryderon. Gall aelodau o staff ddod â chydweithwyr neu gynrychiolydd undeb i unrhyw gyfarfod o dan y polisi hwn. Bydd disgwyl i'r cydymaith barchu cyfrinachedd y datgeliad ac unrhyw ymchwiliad fydd yn deillio o hynny.

Bydd y Cylch yn creu amgylchedd sy'n caniatáu i staff nodi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban yn agored o dan y polisi hwn. Mae'n anodd ymchwilio i ddatgeliadau sy'n hollol ddiennw. Os yw aelod o staff yn dymuno nodi ei bryderon yn gyfrinachol, bydd y Cylch yn gwneud pob ymdrech i gadw'r wybodaeth ynglŷn â'r datgelwr yn gyfrinachol, gan rannu'r wybodaeth gyda'r rhai sydd ynghlwm â'r ymchwiliad yn unig.

Bydd y Cylch yn sefydlu ac yn gweithredu strwythur mewnol ar gyfer adrodd, ymchwilio a chywiro unrhyw gamymddwyn yn y gweithle. Os na all aelod o staff fynd at un o'r personau cyfrifol, bydd rhaid mynd at y cadeirydd neu'r is-gadeirydd. Yn y mwyafrif o achosion, ni ddylai staff deimlo rheidrwydd i hysbysu unrhyw un yn allanol. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn cydnabod o dan rhai amgylchiadau, ei fod yn briodol i staff drafod eu pryderon gyda chorff allanol megis Rheolydd. Bydd y Cylch yn annog unrhyw aelod o staff i dderbyn cyngor cyn trafod y pryder gyda chorff allanol. Mae gan 'Pryder y Cyhoedd yn y Gwaith' linell gymorth gyfrinachol – mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

Mae'r Cylch yn annog didwylledd, a bydd yn cefnogi staff sy'n nodi pryderon dilys o dan y polisi hwn, hyd yn oed os bydd eu pryderon yn cael eu profi'n anghywir. Ni fydd staff yn dioddef unrhyw ymdriniaeth niweidiol o ganlyniad i nodi pryder dilys. Ni ddylai staff figwth na dial yn erbyn Chwythwr Chwiban mewn unrhyw fodd. Gall gweithredu yn y modd yma arwain at achos disgyblu.



Os yw'r Cylch yn darganfod bod Chwythwr Chwiban wedi gwneud cyhuddiad ffug maleisus neu gyda'r bwriad i elwa'n bersonol, gall y Chwythwr Chwiban wynebu achos disgyblu.

Pryder y Cyhoedd yn y Gwaith – (elusen annibynnol Chwythu'r Chwiban)

Llinell Gymorth – (020) 7404 6609

E-bost – whistle@pcaw.co.uk

Safle Gwe – www.pcaw.co.uk